Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Arts Wales

# BAND PRES Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

# National Youth BRASS BAND of Wales



# CLYWELIADAU 2008 AUDITIONS

Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Arts Wales

## AM Y BPCIC

Ffurfiwyd Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, dan arweiniad ei gyfarwyddwr cerdd cyntaf a'r llywydd presennol, Edward Gregson, ym 1982 gan Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru, sy'n parhau i ddarparu cefnogaeth weinyddol a nawdd fel partner yng Nghelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Yn ychwanegol at yr hyfforddiant sy'n cael ei gynnig drwy fandiau pres mewn cymunedau lleol ledled Cymru, mae'r Band yn cydnabod cefnogaeth gwasanaethau cerdd sirol yr awdurdodau addysg lleol, yn wir, daeth y syniad o ffurfio band pres cenedlaethol ar gyfer ieuenctid Cymru i fod, i raddau helaeth, o ganlyniad i frwdfrydedd tiwtoriaid y gwasanaethau cerdd.

Daw aelodau Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru o bob cwr o Gymru a byddant yn cael clyweliadau neu ailglyweliadau bob blwyddyn. Erbyn hyn, mae nifer fawr o'r cyn-aelodau yn enwog fel unawdwyr, arweinwyr neu fel perfformwyr gyda bandiau neu gerddorfeydd mwyaf blaenllaw Prydain. Bu'r rhan fwyaf o diwtoriaid BPCIC yn perfformio gyda Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ar un adeg, ac mae'r un peth yn wir am bron pob un o staff Bugeiliol y Band.

Yn ychwanegol at Edward Gregson, bu gan y Band arweinwyr eraill megis Arthur Kenny, Bram Tovey, Howard Snell, James Gourlay, Frank Renton, James Watson, Nicholas Childs, Ray Farr a Nigel Boddice. Y cyfarwyddwr presennol yw Robert Childs, sydd (ynghyd â'i deulu) wedi bod â chyswllt cryf â'r Band ers ei ddyddiau cynnar.

Ers y cyngerdd agoriadol yn Neuadd y Brangwyn, Abertawe, daeth Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn enwog am berfformio gweithiau cyfoes. Comisiynodd y Band weithiau cerddorol gan nifer o gyfansoddwyr, ac yn eu plith Alun Hoddinott (Symffoni Rhif 8), Mervyn Burtch, Christopher Painter, John Phillips, John Pickard (Symffoni *Gaia*), Peter Graham, Nigel Clarke a Martin Ellerby. Ychwanegodd gweithiau comisiwn y Band yn sylweddol at y repertoire consierto i fandiau pres, ac mae hwnnw'n cynnwys consierti gan Mervyn Burtch (piano), Philip Wilby (ewffoniwm), Gareth Wood (trombôn, telyn), ac Alun Hoddinott (offer taro). Yn fwy diweddar, comisiynodd y Band *Concerto Grosso* i Fand Pres a Phedwar Unawdydd gan Alun Hoddinott, perfformiodd waith comisiwn newydd, sef Consierto i Gorn Tenor gan Gareth Wood, a'r Band roddodd y perfformiad cyntaf o'r Piano Consierto (4 llaw) o waith Bill Connor.

Ymhlith gweithgareddau'r Band hyd yma, mae teithiau i'r Iseldiroedd, Norwy a Chanada, perfformiadau ym mhrif Wyliau Cymru, gan gynnwys Proms Cymru, yn ogystal â darllediadau ar y radio a'r teledu.

## ABOUT THE NYBBW

The National Youth Brass Band of Wales, under its first musical director, and current president, Edward Gregson, was formed in 1982 by the Welsh Amateur Music Federation, which continues to provide administration and funding as a partner in National Youth Arts Wales. In addition to the training supplied through brass bands in local communities throughout Wales, the Band acknowledges the support of the local education authority county music services: indeed, it was in large part due to the enthusiasm of several music service tutors that the formation of a national youth band for Wales was suggested.

Members of the National Youth Brass Band of Wales are drawn from all parts of Wales, and auditioned or re-auditioned annually. A large number of former members are now well known as soloists, conductors, or as performers with top British bands or orchestras. The majority of NYBBW tutors once played in the National Youth Brass Band of Wales, as did nearly all of the Band's pastoral staff.

In addition to Edward Gregson, the Band's conductors have included Arthur Kenny, Bram Tovey, Howard Snell, James Gourlay, Frank Renton, James Watson, Nicholas Childs, Ray Farr and Nigel Boddice. It is currently directed by Robert Childs, who (with his family) has had a strong association with the Band since its early days.

From its first concert at the Brangwyn Hall, Swansea, the National Youth Brass Band of Wales has established an enviable reputation for performing contemporary works. Numerous composers have been commissioned by the Band, including Alun Hoddinott (8th Symphony), Mervyn Burtch, Christopher Painter, John Phillips, John Pickard (*Gaia* Symphony), Peter Graham, Nigel Clarke and Martin Ellerby. The Band's commissions have added considerably to the brass band concerto repertoire, and include concerti by Mervyn Burtch (piano), Philip Wilby (euphonium), Gareth Wood (trombone, harp), and Alun Hoddinott (percussion). More recently, the Band commissioned a *Concerto Grosso* for Brass and Four Soloists from Alun Hoddinott, featured a newly commissioned Tenor Horn concerto from Gareth Wood, and gave the first performance of the Piano Concerto (4 hands) by Bill Connor.

The Band also features a wide range of "test-pieces" in its programmes, ranging from the classics of the repertoire to the most recent. Added to this is the challenge of the latest large-scale transcriptions that few youth bands are able to tackle.

Tours to The Netherlands, Norway and Canada, performances at the major Welsh Festivals, including the Welsh Proms, together with radio and television broadcasts have all featured in the Band's activities to date.

## ROBERT CHILDS (Cyfarwyddwr Cerdd)

Penodwyd Dr Robert Childs yn Gyfarwyddwr Cerdd Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn 2000. Mae ei waith fel cerddor proffesiynol yn cwmpasu nifer o feysydd, yn ychwanegol at ei enwogrwydd byd-eang fel athro ac unawdydd ewffoniwm, a'i berfformiadau gyda nifer o fandiau mwyaf blaenllaw'r wlad. Ef yw Cyfarwyddwr yr adran Astudiaethau Band Pres yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd. Mae Robert yn diwtor ac yn aelod o gyngor Bandiau Pres Cenedlaethol Ieuenctid Prydain Fawr. At hyn, mae'n brofiadol fel cynhyrchydd recordiau ac ef yw sylfaenydd a Chyfarwyddwr *Doyen Recordings*.

Ym mis Mai 2000, derbyniodd Robert gyda balchder y gwahoddiad i ddod yn Gyfarwyddwr Cerdd y 'Buy As You View Cory Band', a thrwy hynny bu'n bosibl iddo ailafael yn ei gyswllt â Chymru yn ogystal â'r band y bu'n ei edmygu ers ei blentyndod. Mewn byr amser, mae wedi llwyddo i adfywio bandio pres yng Nghymru drwy dywys ei fand newydd i safle'r 'ail orau' ym Mhencampwriaeth Ewrop a'u cynorthwyo i ennill Pencampwriaeth Agored Prydain ddwywaith (tlws na fu yn nwylo'r un band o Gymru ers 148 mlynedd) yn ogystal â'r Bencampwriaeth Genedlaethol. Dan ei arweiniad yn 2008, daeth band y Cory yn Bencampwyr Ewrop ac felly daethpwyd â'r teitl yn ôl i Gymru, a hynny am y tro cyntaf ers 28 mlynedd.

## ROBERT CHILDS (Music Director)

Dr Robert Childs was appointed Music Director of the National Youth Brass Band of Wales in 2000. His work as a professional musician encompasses many fields, in addition to his world-wide reputation as teacher and euphonium soloist, performing with many of the country's leading bands. He is Director of Brass Band Studies at the Royal Welsh College of Music & Drama in Cardiff. Robert is a tutor and council member to the National Youth Brass Bands of Great Britain. He is also an experienced record producer, founder and Director of Doyen Recordings.

Robert conducted and performed with the Yorkshire based Black Dyke Band for almost ten years; highlights of his tenure included performances with Lesley Garret, Philip Smith and The Beautiful South.

In May 2000 Robert was delighted to accept the invitation to become the Music Director of the 'Buy As You View Cory Band', thus re-uniting him with Wales and associating him with the band he has held in such high esteem since being a boy. In a short space of time he revitalised brass banding in Wales by steering his new band to become 'runners up' in the European Championships and to win both the British Open title twice (a trophy which had eluded Welsh bands for 148 years) and the National Championships. In 2008 he led the Cory Band to become European Champions, thus bringing back the title to Wales for the first time in 28 years.



## CWRS PRESWYL

Bydd BPCIC yn cwrdd am ei gwrs preswyl blynyddol yn ystod gwyliau'r haf. Yn ystod yr wythnos bydd y chwaraewyr yn cael eu tiwtora'n arbenigol gan dîm o diwtoriaid profiadol sy'n dod o fandiau gorau'r DU.

Yn ogystal â cherddori, bydd aelodau'r band yn mwynhau rhaglen fywiog o adloniant fydd yn cael ei rhedeg gan y staff bugeiliol. Bydd y gweithgareddau fel arfer yn cynnwys chwaraeon megis nofio, pêl-droed a rownderi a digwyddiadau gyda'r nos megis cwis, nosweithiau talent a llawer mwy.

Daw'r wythnos i ben â pherfformiadau yn rhai o brif leoliadau cyngerdd Cymru. Yn fwyaf diweddar ymddangosodd y band yn Theatr Glan yr Afon yng Nghasnewydd, Galeri yng Nghaernarfon a Chanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd.

## CWRSIAU A CHYNGERDDI 2009

| | |
|---|---|
| Lleoliad | Prifysgol Cymru, Bangor |
| Dyddiadau | Sadwrn 18 – Gwener 24 Gorffennaf |
| | Sadwrn 5 - Sul 6 Medi |
| Cyngherddau | Mercher 22 Gorffennaf - Eglwys Gadeiriol, Llanelwy |
| | Gwener 23 Gorffennaf - Galeri, Caernarfon |
| | Sadwrn 24 Gorffennaf - Neuadd William Aston, Wrecsam |
| | Sul 6 Medi - Neuadd y Brangwyn, Abertawe |
| | (Lleoliadau cyngherddi o bosib yn newid.) |

## COST

Cost y cwrs yw £250.00, sydd i'w dalu mewn dau randal ym mis Rhagfyr 2008 ac Ebrill 2009.

## CYMORTH ARIANNOL

Rydym yn awyddus iawn i sicrhau na fydd rhesymau ariannol yn atal unrhyw un rhag gwneud cais am Fand Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Ymdrinnir yn gwbl gyfrinachol ag unrhyw geisiadau am gymorth ariannol.

## RESIDENTIAL COURSE

The NYBBW meets for an annual residential course held during the summer vacation. During the week players are given expert tuition from a team of specialist tutors drawn from the ranks of the UK's best ensembles.

In addition to music making, Band members enjoy a lively entertainment programme run by the pastoral staff. Activities usually include sports such as swimming, football and rounders and evening events such as quizzes, talent nights and much more.

The week culminates with performances at some of Wales's top concert venues. In recent years the Band has appeared at the Riverfront Theatre in Newport, Galeri in Caernarfon and the Wales Millennium Centre in Cardiff .

## 2009 COURSES & CONCERTS

| | |
|---|---|
| Venue | University of Wales, Bangor |
| Dates | Saturday 18 - Friday 24 July |
| | Saturday 5 - Sunday 6 September |
| Concerts | Wednesday 22 July - St Asaph's Cathedral |
| | Thursday 23 July - Galeri, Caernarfon |
| | Friday 24 July - William Aston Hall, Wrexham |
| | Sunday 6 September - Brangwyn Hall, Swansea |
| | (Concert venues may be subject to change.) |

## COST

The cost of the course is £250.00, due in two instalments paid in December 2008 and April 2009.

## FINANCIAL ASSISTANCE

We are keen to ensure that no-one is deterred from applying for the National Youth Brass Band of Wales for financial reasons. All applications for assistance are treated in strictest confidence.

## GOFYNION

- Derbynnir ymgeiswyr i'w clyweld ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan Bennaeth Gwasanaeth Cerdd eu sir (neu ei g/chynrychiolydd neu gywerth) a disgwylir iddynt gefnogi gweithgaredd cerddorol yn yr ysgol/coleg ac ar lefel sirol. Os nad oes gweithgaredd sirol, gall y Pennaeth Adran yn yr ysgol neu goleg gefnogi ceisiadau i ddechrau.
- Dylai ymgeiswyr fel arfer fod o safon Gradd VIII er nad oes angen iddynt fod wedi sefyll yr arholiad.
- Dylai ymgeiswyr fod rhwng 12 - 21 mlwydd oed ar 31ain Awst 2008 (neu 22 os ydynt mewn addysg lawn-amser o hyd).
- Rhaid i chwaraewyr fod ar gael ar gyfer holl ddyddiadau'r cyrsiau a'r cyngherddau. Gwnewch yn siŵr y byddwch ar gael cyn ymgeisio.

## REQUIREMENTS

- Candidates are accepted for audition on the approval of their county Head of Music Service (or his/her authorised representative or equivalent) and are expected to support music activity at school/college and county level. Where county activity does not exist, the Head of Department in school or college may initially support applications.
- Candidates should normally be of around Grade VIII standard though they do not need to have to have taken the exam.
- Candidates should be between 12 and 21 years old on 31st August 2008 (or 22 if still in full-time education).
- Players must be available for all course and concert dates. Please check your availability before applying.

## Y CLYWELIAD

Yn ystod y clyweliad byr gofynnir i chi chwarae dau ddarn cyferbyniol o'ch dewis eich hun (heb gyfeiliant), yn ogystal â graddfeydd, arpeggios a darllen ar yr olwg gyntaf. Bydd y rhai hynny sydd hefyd yn cynnig offeryn dyblu (e.e. *flugelhorn*) yn cael eu gwahodd i berfformio darn byr ar yr offeryn hwn.

I gael manylion llawn am drefn y clyweliad ynghyd ag awgrymiadau ar sut i baratoi yn llawn, dilynwch y cysylltau ar ein gwefan (www.nyaw.co.uk) os gwelwch yn dda.

Cynhelir y clyweliadau ym mis Tachwedd trwy Gymru yn y canolfannau ac ar y dyddiadau a roddir isod. Dylech nodi ar y ffurflen gais amgaeëdig pa ganolfan yr hoffech ei mynychu. Byddwn yn cysylltu â chi gyda manylion eich apwyntiad ym mis Hydref.

**MAE'R CLYWELIADAU'N RHAD AC AM DDIM** ond mae gofyn i chi anfon siec, yn daladwy i FfCAC (BPCIC), am £15.00 fel blaendal. Dychwelir y siec hwn i chi os byddwch yn dod i'ch apwyntiad fel a gytunwyd. Bydd y tâl hwn yn cael ei fforffedu os nad ydych yn dod i'ch apwyntiad.

## THE AUDITION

During the short audition you will be asked to perform 2 contrasting pieces of your own choice (unaccompanied), a selection of scales and arpeggios and sight-reading. Those who are also offering a doubling instrument (eg. flugelhorn) will be asked to perform a short piece on this instrument.

For full details of the audition procedure along with tips on how to prepare fully, please follow the links on our website (www.nyaw.co.uk).

Auditions will take place in November throughout Wales at the centres and dates given below. You should indicate on the enclosed application form which centre you would like to attend. We will contact you with details of your appointment in October.

**AUDITIONS ARE FREE OF CHARGE** but you are required to send a cheque, made payable to WAMF (NYBBW), for £15.00 as a deposit. The cheque will be returned to you if you attend your appointment at the agreed time. Those failing to appear for the auditions will forfeit the payment.

## DYDDIADAU A LLEOLIADAU CLYWELIADAU

| | |
|---|---|
| Mawrth 4 Tach | Caerfyrddin (pres) |
| Mercher 5 Tach | Gogledd Cymru (pres) |
| Iau 6 Tach | Caerdydd (pres) |
| Sadwrn 8 Tach | Casnewydd (pres) |
| Llun 11 Tach | Gogledd Cymru (offerynnau taro yn unig) |
| Mawrth 12 Tach | Caerffyddin & Caerdydd (offerynnau taro yn unig) |

Seilir y trefniadau hyn ar wasgariad daearyddol nodweddiadol ymgeiswyr a gellir eu newid os bydd llai na 12 ymgeisydd i bob lleoliad. Yn yr un modd, gellir ychwanegu dyddiad/lleoliad arall os bydd digon o alw am hynny.

## AUDITION DATES & VENUES

| | |
|---|---|
| Tue 4 Nov | Carmarthen (brass ) |
| Wed 5 Nov | North Wales (brass) |
| Thu 6 Nov | Cardiff (brass ) |
| Sat 8 Nov | Newport (brass) |
| Mon 11 Nov | North Wales (percussion only) |
| Tue 12 Nov | Carmarthen & Cardiff (percussion only) |

These arrangements are based on the typical geographical spread of candidates and are subject to change if there are fewer than 12 candidates per venue. Equally, an additional date/venue may be added if there is sufficient demand.

## SUT I YMGEISIO

Llenwch y ffurflen gais sydd ynghlwm a'i hanfon gyda'ch blaendal i'r cyfeiriad isod cyn 30ain Medi 2008.

**Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, Tŷ Cerdd,**
**Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd. CF10 5AL**

Bydd amser eich clyweliad yn cael ei anfon atoch tua diwedd mis Hydref.

## HOW TO APPLY

Please complete the attached application form and send with your deposit to the address below before 30th September 2008.

**National Youth Brass Band of Wales, Tŷ Cerdd,**
**Wales Millennium Centre, Bute Place, Cardiff. CF10 5AL**

You will be notified of your audition time towards the end of October.

## GWYBODAETH BELLACH

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am BPCIC neu unrhyw un ensemble cerdd arall sy'n rhan o Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ar 029 2063 5649/50 neu nybbw@tycerdd.info

## FURTHER INFORMATION

You can obtain further information about the NYBBW or any of the other National Youth Arts Wales music ensembles from 029 2063 5649/50 or nybbw@tycerdd.info

# CAIS I YMUNO Â BPCIC
# APPLICATION TO JOIN NYBBW 2009

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw ar gronfa ddata Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. O dro i dro efallai y byddwn am drosglwyddo eich manylion cysylltu i fudiadau celfyddydau eraill sydd wedi'u sgrinio'n ofalus. Os nad ydych am i ni wneud hyn, ticiwch y blwch hwn: □

The information will be stored on the National Youth Arts Wales database. From time to time we may wish to pass your contact details to other, carefully screened, arts organisations. If you do not wish us to do this, please tick this box: □

PRINTIWCH Y WYBODAETH I GYD MEWN PRIFLYTHRENNAU PLEASE PRINT ALL INFORMATION IN BLOCK CAPITALS

OFFERYN(NAU)
INSTRUMENT(S) ________________________ GRADD GRADE __________ DYDDIAD A BASIWYD DATE PASSED ______________

yr hoffech gael eich clyweld arno/arnynt on which you wish to be auditioned

CYFENW
SURNAME ________________________ ENW(AU) CYNTAF FIRST NAME(S) ________________________

DYDDIAD GENI
DATE OF BIRTH ________________________ OEDRAN AR AGE ON 31.08.09 ______ bl .yr. ______ m.

CYFEIRIAD CARTREF
HOME ADDRESS ________________________________________________

TREF/DINAS
TOWN/CITY ________________________ CÔD POST POST CODE ______________

AWDURDOD LLEOL
LOCAL AUTHORITY ________________________ RHIF FFÔN CARTREF HOME PHONE NUMBER ( _______ ) ______________

RHIF FFÔN SYMUDOL
MOBILE NUMBER ________________________ CYFEIRIAD EBOST EMAIL ADDRESS ________________________

YSGOL/COLEG
SCHOOL/COLLEGE ________________________ GWASANAETH CERDD MUSIC SERVICE ________________________

CYFEIRIAD YN YSTOD Y TYMOR
TERM-TIME ADDRESS ________________________________________________

(os yw'n wahanol i'r uchod) (if different from above)

Gyda pha ensemble offerynnol rydych chi wedi/ydych chi'n perfformio?
With which instrumental ensembles have you performed/do you perform?

YSGOL
SCHOOL ________________________________________________

SIR
COUNTY ________________________________________________

CENEDLAETHOL
NATIONAL ________________________________________________

ARALL
OTHER ________________________________________________

Profiad offerynnol arall (gwobrau cerdd ayb.)
Other instrumental experience (music prizes/awards etc.)

________________________________________________

Pwy sy'n rhoi gwersi offerynnol i chi?
With whom do you have instrumental lessons? ________________________________

Ydych chi'n chwarae offeryn arall? Nodwch.
Do you play another instrument? Please specify. ________________________ GRADD GRADE ______________

TROSODD
PLEASE TURN OVER

Sut wnaethoch chi glywed am BPCIC?
How did you hear about the NYBBW?

❑ athro offerynnol instrumental teacher ❑ athro cerdd yn yr ysgol school music teacher

❑ gwasanaeth cerdd y sir county music service ❑ gwefan CCIC NYAW website

Arall, nodwch Other, please state ______________________________________________

❑ Hoffwn gael gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg (lle bod hi'n bosib).
❑ I would like all correspondence to be in English.

CANOLFAN GLYWELD FYDDAI ORAU GENNYCH
Ticiwch y blwch gyferbyn â'r ganolfan glyweld o'ch dewis:

PREFERRED AUDITION CENTRE
Please tick the box of your preferred audition centre:

❑ Caerdydd Cardiff ❑ Caerfyrddin Carmarthen

❑ Gogledd Cymru North Wales ❑ Casnewydd Newport

Amgaeir siec am £15.00, yn daladwy i FFCAC (BPCIC) fel blaendal. Deallaf y byddaf yn fforffedu'r arian hwn os na fyddaf yn dod i'r clyweliad ar yr amser a gytunwyd.
I enclose a cheque for £15.00, made payable to WAMF (NYBBW) as a deposit. I understand that I will forfeit this money if I fail to attend the audition at the agreed time.

Rwy'n cadarnhau y byddaf ar gael am gwrs BPCIC a dyddiadau'r cyngherddau.
I confirm that I am available for all of the NYBBW course and concert dates.

LLOFNOD YR YMGEISYDD
SIGNATURE OF APPLICANT ______________________________________

DYDDIAD
DATE _ _ / _ _ / _ _ _ _

*CYMERADWYIR Y CAIS GAN BENNAETH CERDD YR YSGOL/COLEG
*APPLICATION ENDORSED BY SCHOOL/COLLEGE HEAD OF MUSIC

LLOFNOD SIGNATURE ____ANGHENRHEIDIOL ESSENTIAL____

DYDDIAD
DATE _ _ / _ _ / _ _ _ _

*CYMERADWYIR Y CAIS GAN BENNAETH GWASANAETH CERDD Y SIR / CYNRYCHIOLYDD AG AWDURDOD
*APPLICATION ENDORSED BY COUNTY HEAD OF MUSIC SERVICE / AUTHORISED REPRESENTATIVE

LLOFNOD SIGNATURE ____ANGHENRHEIDIOL ESSENTIAL____

DYDDIAD
DATE _ _ / _ _ / _ _ _ _

* gweler y 'Gofynion' ar dudalen 4.
*see 'Requirements' on page 4.

DS Na ellir ystyried ceisiadau heb eu cymeradwyo.
NB Unendorsed applications will not be considered.

Dychwelwch y ffurflen gais wedi'i llenwi ynghyd â siec am £15.00 yn daladwy i FfCAC (BPCIC) i'r cyfeiriad isod cyn 30ain Medi 2008.

Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, Tŷ Cerdd, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd. CF10 5AL

Please return the completed application form together with a cheque for £15.00 made payable to WAMF (NYBBW) to the address below before 30th September 2008.

National Youth Brass Band of Wales, Tŷ Cerdd, Wales Millennium Centre, Bute Place, Cardiff. CF10 5AL

# DYDDIAD CAU 30.09.08 CLOSING DATE